# Trosolwg o'r wers: Meddwl am Yfed

| | | |
|---|---|---|
| **LLINELL:** | Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau | Disgrifiad o'r Wers: Drwy drafodaethau, cwestiynu a holi bydd disgyblion yn dysgu am Alcohol, ei effeithiau a'r risgiau cysylltiedig ag yfed. Byddan nhw'n dysgu am y gyfraith wrth chwarae gêm ac ar y diwedd byddan nhw'n cael gwybodaeth am asiantaethau all gynnig cymorth a chefnogaeth iddyn nhw. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL:** | CA3 | |
| **GWERS:** | Meddwl am Yfed | |

## NOD

Dysgu am Alcohol, y gyfraith a pheryglon yfed

## AMCANION FFRAMWAITH ABCh 2008

- Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn ffurfio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus ac effeithiol. S (DM)
- Cyfleoedd i ddangos empathi tuag at eraill a'u profiadau, eu teimladau a'u gweithredoedd. S (GGE)
- Deall peryglon yfed sbri a sut i ddefnyddio Alcohol yn gyfrifol. Y (ILIE)
- Cyfle i arddangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach. Y (ILIE)
- Deall beth maen nhw'n ei gredu yw'r pethau iawn neu ddim yn iawn i'w gwneud a'r problemau sy'n codi mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Y (DMY)

## LLYTHRENNEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae'r wers hon yn cynnwys yr elfennau canlynol o'r fframwaith llythrennedd/rhifedd

- Siarad – Ll(Llef) si
- Gwrando – Ll(Llef) gw
- Cydweithio a Thrafod Ll(Llef) cth
- Strategaethau darllen L(D) sd
- Ymateb a dadansoddi Ll(D) yd
- Adnabod prosesau a chysylltiadau Rh(DYRh) apch

## AMCANION Y WERS

- Archwilio agweddau tuag at Alcohol
- Gwybod y gyfraith mewn perthynas ag Alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Deall bod canlyniadau i yfed Alcohol
- Gwybod lle i fynd am gyngor a chymorth

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Alcohol, unedau, yfed sbri, ymddygiad gwrthgymdeithasol

## ADNODDAU

- Geiriau allweddol
- Cyflwyniad PowerPoint
- Diffiniad o Alcohol
- Diffiniad o yfed sbri
- Diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Amcanion (A3)
- Cardiau cytuno/anghytuno
- Gemau bwrdd Meddwl am Yfed a set o gardiau
- Cerdyn gwybodaeth 'Pwy sydd dros y cyfyngiad?'
- Taflen gweithgaredd 'Pwy sydd dros y cyfyngiad?'
- Taflen atebion y Swyddog
- Fideo "Plant Anweledig" – ar gael yn y ffeil PowerPoint

## DULL

- Cytuno ar reolau'r dosbarth
- Amlinellu'n glir gytundeb y dosbarth ynghylch cyfrinachedd
- Sicrhau bod elfennau sy'n cysylltu â gwersi eraill yn cael eu trafod.
- Egluro ac arddangos yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol
- Dosbarth cyfan: datganiadau agweddau
- Gweithgaredd pâr: Pwy sydd dros y cyfyngiad?
- Gweithgaredd grŵp: Gêm fwrdd 'Meddwl am Yfed'
- Trafod fel dosbarth sut y mae Alcohol yn effeithio ar ymddygiad
- Dangos clip Video risgiau a chanlyniadau
- Trafodaeth ac adborth ar y clip Video
- Diweddglo
- Dosbarthu cardiau SchoolBeat / Dan 24/7

## GWEITHGAREDDAU DILYNOL ATHRAWON

Am adnoddau a gwybodaeth mwy manwl ewch i'r adran athrawon ar wefan www.schoolbeat.org